# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 11 Ionawr 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(37)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Gofynnwyd y 13 cwestiwn cyntaf.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd cwestiynau 1 – 9 ac 11 – 13. Trosglwyddwyd cwestiwn 10 i'w ateb yn ysgrifenedig. Tynnwyd cwestiwn 14 a 15 yn ôl.

### 3. Dadl i geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Arfaethedig Aelod ynghylch Parhad o Ofal i Fywyd fel Oedolyn (Ken Skates)

Dechreuodd yr eitem am 15.03

**NDM4885 Ken Skates (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.91:

Yn cytuno y caiff Ken Skates gyflwyno Bil a fydd yn rhoi ar waith y wybodaeth cyn y balot a gyflwynwyd ar 14 Hydref 2011 o dan Reol Sefydlog 26.90.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4886 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi â phryder sylwadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, wrth ymateb i Raglen Adnewyddu’r Economi 2010, fod gan Gymru gymysgedd wael o sgiliau.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod pwysigrwydd darpariaeth sgiliau sy’n cael ei harwain gan y galw, yn unol ag argymhellion Adolygiad Leitch; a

b) cynnal asesiad llawn o’r angen am sgiliau arbenigol yng Nghymru yn y dyfodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 34 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu "â phryder" o bwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 26 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ar ddiwedd pwynt 1 mewnosod "ac felly’n cydnabod pwysigrwydd y ffaith bod Sgiliau Twf Cymru ar fin ailagor a’r Adolygiad o Gymwysterau sy’n parhau fel rhan o’r ymrwymiad sylweddol i sgiliau a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 16 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r £4.88 miliwn ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Newydd a'r £3 miliwn ychwanegol ar gyfer Sgiliau Twf Cymru a gyhoeddwyd yn y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2011.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 12 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4886 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn nodi sylwadau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, wrth ymateb i Raglen Adnewyddu'r Economi 2010, fod gan Gymru gymysgedd wael o sgiliau ac felly'n cydnabod pwysigrwydd y ffaith bod Sgiliau Twf Cymru ar fin ailagor a'r Adolygiad o Gymwysterau sy'n parhau fel rhan o'r ymrwymiad sylweddol i sgiliau a amlinellir yn y Rhaglen Lywodraethu.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cydnabod pwysigrwydd darpariaeth sgiliau sy'n cael ei harwain gan y galw, yn unol ag argymhellion Adolygiad Leitch; a

b) cynnal asesiad llawn o'r angen am sgiliau arbenigol yng Nghymru yn y dyfodol.

3. Yn croesawu'r £4.88 miliwn ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Recriwtiaid Newydd a'r £3 miliwn ychwanegol ar gyfer Sgiliau Twf Cymru a gyhoeddwyd yn y gyllideb derfynol ym mis Rhagfyr 2011.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 12 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**5. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.55

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4887 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno system fandio ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd yng Nghymru;

2. Yn credu nad yw bandio'n rhoi darlun cyflawn o berfformiad ysgol a dylid cyfyngu ei ddefnydd i sicrhau bod unrhyw ysgol yn cael y cymorth angenrheidiol sydd ei angen arni i wella'r meysydd hynny a gaiff eu mesur gan y system fandio;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno proses werthuso adeiladol sy'n arwain at gymorth wedi'i dargedu i ddatrys perfformiad gwael mewn ysgolion.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 44 | 56 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro dealltwriaeth rhieni, athrawon a Llywodraethwyr o'r system fandio ac ystyried y pryderon a fynegwyd gan staff addysgu a chymryd camau eraill i egluro os bydd angen.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 55 | 0 | 0 | 55 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y camau y mae Awdurdodau Lleol wedi'u cymryd, drwy gonsortia, i ad-drefnu'r gwasanaethau gwella ysgolion ac yn credu y dylai cefnogaeth sy'n manteisio ar arbenigedd yr ymarferwyr blaenllaw ddod yn fodel ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 12 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu mai safon yr addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion yw'r ffactorau allweddol ar gyfer gwella ysgolion ac yn talu teyrnged i waith y proffesiwn addysgu yng Nghymru am sicrhau bod safonau wedi codi dros y degawd diwethaf.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 0 | 0 | 56 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd y system fandio hon, drwy ganolbwyntio ar berfformiad cyffredinol ysgolion, yn methu cydnabod perfformiadau unigol disgyblion ac adrannau yn yr ysgolion hynny.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 39 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn bryderus nad yw Llywodraeth Cymru wedi llunio canllawiau penodol ar gyfer sut gall awdurdodau lleol a chanddynt nifer o ysgolion ym Mandiau 3, 4 a 5 wneud gwelliannau ymarferol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 29 | 56 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4887 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno system fandio ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd yng Nghymru;

2. Yn credu nad yw bandio'n rhoi darlun cyflawn o berfformiad ysgol a dylid cyfyngu ei ddefnydd i sicrhau bod unrhyw ysgol yn cael y cymorth angenrheidiol sydd ei angen arni i wella'r meysydd hynny a gaiff eu mesur gan y system fandio;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno proses werthuso adeiladol sy'n arwain at gymorth wedi'i dargedu i ddatrys perfformiad gwael mewn ysgolion.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro dealltwriaeth rhieni, athrawon a Llywodraethwyr o'r system fandio ac ystyried y pryderon a fynegwyd gan staff addysgu a chymryd camau eraill i egluro os bydd angen.

5. Yn cydnabod y camau y mae Awdurdodau Lleol wedi'u cymryd, drwy gonsortia, i ad-drefnu'r gwasanaethau gwella ysgolion ac yn credu y dylai cefnogaeth sy'n manteisio ar arbenigedd yr ymarferwyr blaenllaw ddod yn fodel ledled Cymru.

6. Yn credu mai safon yr addysgu ac arweinyddiaeth ysgolion yw'r ffactorau allweddol ar gyfer gwella ysgolion ac yn talu teyrnged i waith y proffesiwn addysgu yng Nghymru am sicrhau bod safonau wedi codi dros y degawd diwethaf.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 12 | 56 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.58

**6. Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.02

**NDM4884 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):**

Chwythu'r Chwiban: A oes cyfrifoldeb moesol ar Lywodraeth Cymru i geisio gwarchod y rheini sy'n chwythu'r chwiban ym mhob agwedd ar fywyd?

Daeth y cyfarfod i ben am 18.27

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 Dydd Mawrth, 17 Ionawr 2012**